OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 No. 898

# Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2013

## RHAN 8

Amrywiol

### Cyhoeddi manylion

**47.**—(1) Rhaid i Fwrdd Iechyd Lleol gyhoeddi'r canlynol, ym mha bynnag ffurf y gwêl yn briodol, a rhoi copïau ohonynt ar gael yn ei swyddfeydd ar gyfer eu harchwilio—

(a) ei restr fferyllol;

(b) ei restr meddygon fferyllol;

(c) map sy'n amlinellu ffiniau unrhyw ardaloedd rheoledig a lleoliadau neilltuedig sydd wedi eu penderfynu;

(d) manylion am unrhyw benderfyniadau a wnaed gan y Bwrdd Iechyd Lleol o dan y Rheoliadau hyn yn ystod y tair blynedd blaenorol;

(e) y telerau gwasanaethu ar gyfer fferyllwyr GIG yn Atodlen 4;

(f) y telerau gwasanaethu ar gyfer contractwyr cyfarpar GIG yn Atodlen 5;

(g) y telerau gwasanaethu ar gyfer meddygon sy'n darparu gwasanaethau fferyllol yn Atodlen 6; ac

(h) y Tariff Cyffuriau.

(2) Caiff Bwrdd Iechyd Lleol—

(a) rhoi pa bynnag rai o'r dogfennau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1) ar gael i'w harchwilio ym mha bynnag fannau eraill yn yr ardal y sefydlwyd y Bwrdd ar ei chyfer, fel y bo'n ymddangos i'r Bwrdd yn gyfleus er gwybodaeth i bawb sydd â diddordeb; neu

(b) cyhoeddi, mewn mannau o'r fath yn yr ardal y sefydlwyd y Bwrdd ar ei chyfer, hysbysiad o'r lleoedd a'r amseroedd y gellir gweld copïau o'r cyfryw ddogfennau.

(3) Rhaid i Fwrdd Iechyd Lleol anfon copi o'i restrau fferyllol a'i restr meddygon fferyllol at Weinidogion Cymru, y Pwyllgor Meddygol Lleol, y Pwyllgor Fferyllol Lleol, a rhaid iddo, o fewn 14 diwrnod ar ôl unrhyw newid yn y rhestrau hynny, eu hysbysu o'r newidiadau hynny, mewn ysgrifen.